Eisteddfod Powys 2026
Y Goron

Diolch am y fraint o gael beirniadu cystadleuaeth y goron a diolch am y croeso yma heddiw. Mae'n bleser bod yn rhan o eisteddfod mor bwysig mewn ardal mor hyfryd.

Mae 6 wedi cystadlu eleni. Y testun oedd Casgliad o ddarnau rhyddiaith ar y thema GWAWRIO. Rhaid dweud fy mod wedi mwynhau pob un ohonynt ac nid oes un cystadleuydd gwael. A dweud y gwir, roedd hi'n anodd dewis gan fod rhinweddau arbennig gan bob un. Yr unig feirniadaeth yw bod rhai darnau o fewn casgliadau'n well na'i gilydd oedd yn tynnu ambell y gystadleuydd i lawr. Roedd hi'n braf iawn hefyd darllen straeon ysgafn a rhai doniol iawn. Da gwybod nad tristwch a marwolaeth yn unig sy'n mynd a bryd awduron Powys.

Paddington
Dyma gyfres o ddarnau amrywiol eu naws. Mae yma stori fer am fachgen yn mynd i'r syrcas i weld clown ac yn cael dadrithiad. Hoffais hon yn fawr iawn. Roedd y stori'n dal sylw o'r dechrau.
Roedd Harri wedi bod yn ysu – yn ysu – ers wythnosau i fynd i'r syrcas.

Roeddwn i'n ysu hefyd i ddarllen mwy er mwyn gwybod beth oedd hanes Harri.

Mae sawl darn ysgafn iawn, fel y darn doniol am y corff yn mynd ar goll o'r arch. Mae yma sawl darn ingol hefyd fel hanes dwy ffrind ac un yn sarhau'r llall. Mae gan yr awdur yma ddawn ysgrifennu gwych a dwi'n dymuno pob lwc iddo wrth barhau.

Llwyncelyn
Tair stori wahanol iawn i'w gilydd o ran naws ac mae'r tair yn effeithiol. Stori deimladwy am ddynes yn olrhain hen lyfrau ail law ac yn tyrchu i'w henaid wrth geisio deall llais yr awduron. Roedd y tro annisgwyl a diwedd yn annwyl iawn.

Yna stori ysgafn am blismon sydd yn llythrennol yn blismon iaith. Hoffais y coegni yn hon.

Yna'r drydedd stori yn un boenus o gyfarwydd am deulu'n wynebu marwolaeth y fam yn yr ysbyty ac yn gorfod wynebu gwawr a bywyd newydd a gwahanol.
Roedd y disgrifio cignoeth yn effeithiol e.e.

Doedd dim angen siarad yn y lle tywyll, rhyfedd hwn rhwng byw a marw.

Mae gan yr awdur ddawn dweud cynnil a Chymraeg graenus.. Hoffais y gwaith yn fawr.

Greta
Nofelig Feicro

Cwato Dan Glogyn

Denodd y nofelig hon fy sylw'n syth. Mae'r dafodiaith dde orllewinol yn hyfryd. Dyddiadur sydd yma a dim ond wrth ddarllen ymlaen y sylweddolais bod y gwaith wedi ei seilio ar hanes bywyd Rachel Roberts yr actores. Roedd digon o greadigrwydd yn y darnau i'm cymell i ddarllen hyd y diwedd a chefais flas ar bethau fel hyn wrth i'r awdur ddisgrifio swyddog:

Ei ddannedd ffrynt yn gam. Nished wedi ei hanner cuddio ym mhoced frest ei siwt, streipie piws a melyn. O dan y siwt lwyd dyn arall sy' am dorri'n rhydd.

Cynnil a gwych iawn!

Dyhead
Mae 4 darn gan y cystadleuydd hwn. Stori fer hollol abswrd a brawychus am brofiad claf mewn ysbyty. Cododd hwn arswyd arna i.

Roedd y dyddiadur gan ddwy fam lofaol yn effeithiol iawn. Dyma oedd ysgrifennu treiddgar ac ysgytwol wrth ddisgrifio ffrwydrad angheuol a cholli gwr a mab. Mae'r ail ddyddiadur yn ddyddiadur mam o Aberfan yn byw'r drasiedi ac yna'r cofio yn 2016.
Mae brawddegau fel hyn yn ingol yn fy marn i wrth i ni gydymdeimlo a phoen y fam:

Roedd hi'n bwrw hen wragedd a ffyn a doedd Joni ni ddim eisiau mynd i'r ysgol...Pam na wnes i adael iddo fe aros adre, wna i fyth anghofio'r wyneb diflas, yr edrychiad olaf ges i.

Roedd yr ysgrif yn ddiddorol. Mwynheais waith yr awdur hwn ond efallai nad oedd y llen meicro wedi taro deuddeg fel y darnau eraill.

Meillionen
Darnau amrywiol. Mae'r darn cynta'n ailddychmygu stori Mair yn darganfod ogof Iesu'n wag. Mae'r ail ddarn yn sgwrs rhwng mam a mab am rywioldeb y mab. Dyna chi ddweud effeithiol yw hwn:
Syllodd Cai yn galed ar y patrymau cnotiog yn y bwrdd o'i flaen, yn ysu am gael cuddio yn y siapiau troellog.

Mae'r trydydd yn ddarn haniaethol yn disgrifio rhyw dir na nog hyfryd a'r pedwerydd yn wedd fodern ar stori Branwen yn y Mabinogi. Roedd y darn cyntaf a'r trydydd darn yn gryf ac yn afaelgar. Ni chefais gymaint o flas ar yr ail a'r trydydd darn. Serch hynny mae yma ddweud gafaelgar ac iaith gyfoethog. Da iawn.

Cynwal

Mae'r awdur wedi cyflwyno 4 darn yn seiliedig ar famau a'r gwahanol brofiadau sy'n deillio o hynny. Mae stori am blentyn yn gwylio mam yn dioddef, am enedigaeth chwaer fach, am fyw fel mam ar ôl colli mam. Mae hefyd stori am fod yn fam a'i holl gyfrifoldeb. Mae yma lythyr hefyd gan fam i'w phlentyn yn mynegi cariad oesol. Dyma oedd fy hoff waith yn y gystadleuaeth. Roeddwn hefyd yn hoffi bod yr awdur wedi clymu'r darnau a sicrhau bod cyswllt rhyngddyn nhw. Ond y prif beth i mi oedd y bod y dweud mod syml ac onest. Dyma un enghraifft o hyn:

Yn doedd y bywyd yma mor wahanol i'r hyn 'nes i ddychmygu. Yr holl mae Mam wedi ei fethu, y bwlch enfawr yn ein byd, y twll heb ei lenwi, y rhywbeth sydd ar goll, yr hiraeth sy'n fy llorio pan fo'n rhaid byw hebddi.

Ond am fywyd hefyd ar yr un gwynt – y mwynhad o gael magu, y pleser dwi'n ei gael o'i gweld yn tyfu o flaen fy llygaid, yn gweld fy adlewyrchiad yn y ferch o 'mlaen, y cariad sydd yn fy nychryn, yr ofn sydd yn fy llorio petai rhaid byw hebddi.

Enghraifft arall o ddawn yr awdur yw'r frawddeg hon:
Mi ddaw galar at ddrws pawb yn ei dro.
Ond, mae'r gnoc yn wahanol i bawb.

Mae'r darnau yma yn hawdd uniaethu a nhw. Mae yma anwyldeb, mae yma drasiedi oesol bywyd, mae yma hefyd gariad.

Mewn cystadleuaeth lle roedd gan bob ymgeisydd rywbeth arbennig i'w gynnig, rwy'n hollol hapus dyfarnu'r goron i Cynwal. Llongyfarchiadau mawr iawn!